

Cyfarwyddyd

Ymateb COVID-19 - Gwanwyn 2021 (Crynodeb)

Cyhoeddwyd 22 Chwefror 2021

Cynnwys

1.
Map trywydd allan o'r cyfnod clo
2.
Pedwar cam

[Argraffu'r dudalen hon](#)

1. Map trywydd allan o'r cyfnod clo

O 8 Mawrth, bydd pobl yn Lloegr yn gweld y cyfyngiadau yn dechrau cael eu llacio a bydd map trywydd pedwar cam y llywodraeth yn cynnig llwybr yn ôl at fywyd mwy normal.

Mae llwyddiant y rhaglen frechu yn un ffactor - erbyn hyn mae dros 17 miliwn o bobl wedi cael eu pigiad - ond nid dyna yw diwedd y stori o bell ffordd. Mae'r cyhoedd hefyd wedi wynebu'r her o gael gwared ar COVID-19: drwy barchu'r gyfraith; aros gartref; cael eu profi yn ôl yr angen; hunanynysu ôl yr angen, a dilyn y canllawiau 'dwylo, wyneb, lle' a 'gadael awyr iach i mewn'.

Gyda'i gilydd, golyga hyn, er bod nifer yr achosion yn parhau yn gymharol uchel, byddwn yn gallu cychwyn llacio'r cyfyngiadau sydd gennym ar hyn o bryd. Er bod angen i ni barhau i fod yn wylidwrus - yn enwedig o'r bygythiad gan amrywiolynnau newydd o COVID-19 - a pharhau i ddiogelu'r GIG, gallwn gychwyn ar y gwaith o lacio'r cyfyngiadau. Bydd hyn yn digwydd mewn pedwar cam; ac ar bob cam ein nod yw codi'r cyfyngiadau ledled Lloegr ar yr un pryd.

Wrth roi'r cynllun hwn ar waith, cawn ein tywys gan y data, nid gan y dyddiadau, er mwyn i ni beidio â pheryglu cynnydd cyflym yn yr haint a fyddai'n rhoi pwysau anghynaliadwy ar y GIG. Am y rheswm hwnnw, mae'r holl ddyddiadau ar y map trywydd yn arwydd o'r hyn sy'n bosib ond gall newid. Bydd pum wythnos o leiaf rhwng pob cam; pedair wythnos i'r data gwyddonol fedru adlewyrchu'r newidiadau i'r cyfyngiadau ac i gael ei ddadansoddi; ac yna i ddilyn hynny un wythnos o rybudd cyn llacio'r cyfyngiadau.

Dim ond pan fydd y llywodraeth yn sicr ei bod hi'n ddiogel i symud o un cam i'r nesaf y bydd penderfyniad yn cael ei wneud. Bydd y penderfyniad yn seiliedig ar bedwar prawf: bod y rhaglen dosbarthu'r brechlyn yn mynd rhagddi'n llwyddiannus; tystiolaeth yn dangos bod y brechlynnau'n ddigon effeithiol wrth leihau'r nifer o bobl fydd yn mynd i'r ysbyty a marwolaethau wedi iddynt gael eu brechu; nad yw cyfraddau heintio yn peryglu cynnydd yn y bobl sy'n gorfod mynd i'r ysbyty a fyddai'n rhoi pwysau anghynaliadwy ar y GIG; ac nad yw ein hasesiad o'r risgiau yn cael eu newid yn sylfaenol gan Amrywiolynnau sy'n Peri Pryder.

Bydd y llywodraeth yn parhau i ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau bod achosion lleol yn cael eu rheoli'n gyflym ac yn effeithiol a'n bod yn llwyddo i drechu amrywiolynnau newydd a pheryglus, o fewn y DU ac ar y ffin. Bydd y llywodraeth hefyd yn parhau i gefnogi teuluoedd a busnesau drwy'r holl gamau a osodwyd ar y map trywydd - a bydd y manylion ynghylch hyn yn cael ei esbonio gan y Canghellor yn y Gyllideb ar 3 Mawrth.

2. Pedwar cam

Yng Ngham 1, ein blaenoriaeth yw sicrhau y gall yr holl blant a myfyrwyr ddychwelyd yn ddiogel at addysg wyneb yn wyneb mewn ysgolion a cholegau o 8 Mawrth. Gall gofal plant a gweithgareddau plant dan

oruchwyliaeth hefyd ailgychwyn yn ôl yr angen i alluogi rhieni i weithio neu wneud pethau tebyg. Rydym yn cyflwyno profi cyflym ddwywaith yr wythnos ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd - yn ogystal â phrofi rheolaidd i athrawon - er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd y feirws yn lledaenu drwy ysgolion.

Gall myfyrwyr Addysg Uwch mewn prifysgolion yn Lloegr ar gyrsiau ymarferol hefyd ddychwelyd o 8 Mawrth.

Bydd pobl yn cael gadael eu cartrefi i hamddena ac i wneud ymarfer corff yn yr awyr agored gydag aelodau eu cartrefi neu swigen gymorth, os ydynt yn gymwys i gael un, neu gydag un unigolyn o du hwnt i'w cartref. Bydd preswylwyr cartrefi gofal hefyd yn cael gweld un ymwelydd rheolaidd.

O'r dystiolaeth mae'n amlwg ei bod hi'n fwy diogel i bobl gwrdd y tu allan na thu mewn. A dyma pam, o 29 Mawrth, pan fydd y rhan fwyaf o ysgolion yn cau ar gyfer gwyliau'r Pasg, y caniateir cynullïadau awyr agored (gan gynnwys gerddi preifat) o un ai 6 o bobl (Rheol o 6) neu 2 gartref, gan felly ei gwneud hi'n haws i ffrindiau a theuluoedd gwrdd y tu allan.

Bydd cyfleusterau chwaraeon awyr agored fel cyrtiau tennis a phêl-fasged, a phyllau nofio awyr agored, hefyd yn cael agor a bydd pobl yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon awyr agored ffurfiol a drefnwyd.

Bydd y rheol 'aros gartref' yn dod i ben ar 29 Mawrth ond bydd amryw o'r cyfyngiadau yn parhau mewn grym. Dylai pobl barhau i weithio gartref er mwyn lleihau ar eu teithiau cymaint â phosib ac osgoi teithio ar yr adegau a'r manau prysuraf. Bydd y gwaharddiad yn parhau ar deithio dramor, ac eithrio ambell reswm a ganiateir. Ni fydd modd mynd ar wyliau dramor, oherwydd bydd rheoli'r risg o amrywiolynnau tramor yn dod i mewn i'r wlad yn parhau i fod yn bwysig gan ddiogelu'r rhaglen frechu. Mae'r llywodraeth wedi lansio tasglu newydd i adolygu teithio byd-eang gan gyflwyno adroddiad ar 12 Ebrill.

Cam 2, na fydd yn digwydd cyn 12 Ebrill, gyda siopau manwerthu heb fod yn hanfodol yn agor; cyfleusterau gofal personol fel siopau trin gwallt a salonau ewinedd; ac adeiladau cyhoeddus, gan gynnwys llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol. Bydd cyfleusterau hamdden dan do fel campfeydd hefyd yn ailagor (ond i'w defnyddio gan bobl ar eu pennau eu hunain neu grwpiau cartref); a'r rhan fwyaf o atyniadau a chyfleusterau awyr agored gan gynnwys safleoedd lletygarwch, sŵau, parciau thema a sinemâu gyrru mewn. Bydd llety hunan-arlwyo fel meysydd gweryslla a thai gwyliau, lle nad yw cyfleusterau dan do yn cael eu rhannu gydag aelwyddydd eraill, yn cael ailagor.

Bydd safleoedd lletygarwch yn cael gweini pobl yn yr awyr agored ar Gam 2 ac ni fydd angen i gwsmeriaid archebu pryd bwyd swmpus gyda diodydd alcohol, ac ni fydd cyrffiw, er bydd yn rhaid i gwsmeriaid eistedd i lawr i archebu, bwyta ac yfed ('gwasanaeth bwrdd'). Mae rheolau cyswllt cymdeithasol pellach ynghlwm â'r holl sefyllfaoedd hyn er mwyn atal pobl rhag cymysgu rhwng gwahanol aelwydydd.

Bydd angladdau yn cael parhau gyda hyd at 30 o alarwyr, a bydd y nifer o bobl a all fynychu priodasau, derbyniadau a digwyddiadau coffa, megis bwyd wedi angladd, yn cynyddu i 15.

Fel rhan o Gam 3, ddim cynharach na 17 Mai, bydd y llywodraeth yn ceisio llacio, cymaint â phosib, y cyfyngiadau ar weld ffrindiau a theulu, gan alluogi pobl i benderfynu eu hunain ar y lefel briodol o risg dan yr amgylchiadau.

Golyga hyn y bydd y rhan helaeth o gyfyngiadau cyfreithiol ynghylch cyfarfod pobl eraill yn yr awyr agored yn cael eu codi - er y bydd cynulliadau o ragor na 30 o bobl yn parhau'n anghyfreithlon. Dan do, Bydd y Rheol o 6 neu 2 gartref mewn grym - a byddwn yn adolygu hyn i weld a fydd hi'n ddiogel i'w gynyddu.

Cyn gynted â phosibl a chyn Cam 3 fan hwyr, byddwn hefyd yn diweddarau'r cyngor ar ymbellhau cymdeithasol rhwng ffrindiau a theulu, gan gynnwys cofleidio. Ond tan y pwynt hwn, dylai pobl barhau i gadw pellter oddi wrth unrhyw un nad ydynt yn rhan o'u cartref neu swigen gymorth.

Bydd y rhan fwyaf o fusnesau, ac eithrio'r rhai sydd yn y sector risg uchel, yn gallu ailagor. Ym mhob sector, bydd canllawiau COVID-Ddiogel yn parhau mewn grym ac ni fydd busnesau yn gallu croesawu grwpiau sy'n fwy na'r trothwyon cyfreithiol. Bydd lletygarwch dan do yn ailagor - ac yn unol â Cham 2, ni fydd yn rhaid i safleoedd weini pryd bwyd swmpus gyda diodydd alcohol; ac ni fydd cyrffiw ychwaith. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i gwsmeriaid archebu, bwyta ac yfed wrth y bwrdd.

Mae lleoliadau dan do eraill a fydd yn ailagor fel rhan o Gam 3 yn cynnwys lleoliadau diddanwch fel sinemâu a lleoedd chwarae i blant; gweddill y sector llety gan gynnwys gwestai, hosteli a gwely a brecwast; a neuaddau chwaraeon dan do i oedolion a dosbarthiadau ymarfer corff. Bydd y llywodraeth hefyd yn caniatáu rhai perfformiadau mwy o faint a digwyddiadau chwaraeon mewn safleoedd dan do sy'n dal 1,000 o bobl neu hanner llawn (pa bynnag rif sydd isaf), ac mewn safleoedd awyr agored hyd at 4,000 o bobl neu hanner llawn (pa bynnag rif sydd isaf). Yn y lleoliadau mwyaf awyr agored, gyda seddau, lle y gellir gwasgaru'r dorf, bydd modd i hyd at 10,000 o bobl fynychu (neu chwarter llawn, pa bynnag rif sydd leiaf).

Bydd hyd at 30 o bobl yn gallu mynychu priodasau, derbyniadau a bwyd wedi angladd, yn ogystal â'r angladd ei hun. Bydd y trothwy hwn hefyd yn berthnasol i fathau eraill o ddigwyddiadau megis bar mitzvahs a bedyddiadau.

Yn olaf, cyn i Gam 4 gychwyn, bydd y llywodraeth yn cwblhau arolwg o ymbellhau cymdeithasol a mesurau eraill hirdymor a roddwyd ar waith i atal y lledaeniad. Bydd hyn yn bwydo gwybodaeth a phenderfyniadau ynghylch amseru ac amgylchiadau a fydd yn sail ar gyfer llacio'r rheolau 1 metr a mwy, gwisgo gorchudd wyneb ac amryw o fesurau eraill. Bydd hyn hefyd yn bwydo'r canllawiau ynghylch gweithio gartref – a ddylai barhau os yw hi'n bosib gwneud hynny hyd nes i'r adolygiad hwn gael ei gwblhau.

Erbyn Cam 4, a ddaw i rym ddim cyn 21 Mehefin, gobaith y llywodraeth yw y bydd mewn sefyllfa i fedru cael gwared ar unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol ar gyswllt cymdeithasol.

Gobeithiwn allu agor y cyfleusterau sy'n weddill, gan gynnwys clybiau nos, a llacio'r cyfyngiadau ar ddigwyddiadau a pherfformiadau mawr sy'n rhan o Gam 3. Bydd hyn yn amodol ar ganlyniadau Rhaglen Ymchwil i Ddigwyddiadau, sef rhaglen wyddonol i brofi canlyniadau rhai digwyddiadau peilot drwy gydol y gwanwyn a'r haf, ble byddwn yn treialu'r

defnydd ac yn profi technegau eraill o gwtogi'r peryg o heintio. Bydd y Rhaglen Ymchwil i Ddigwyddiadau yn llywio penderfyniadau ynghylch a ellir cael gwared ar y trothwyon ar y mesurau i gyd ar briodasau a digwyddiadau eraill mewn bywyd.

Wrth i ni fynd drwy bob un o'r cyfnodau hyn ar y map trywydd, rhaid i ni oll gofio bod COVID-19 yn parhau yn rhan o'n bywydau. Rhaid i ni barhau i fyw ein bywydau mewn ffordd wahanol er mwyn cadw ein hunain ac eraill yn ddiogel. Rhaid i ni barhau gyda'r drefn 'dwylo, wyneb, lle'. Cydymffurfiwch â'r mesurau COVID-Ddiogel sy'n parhau mewn grym. Cyfarfod yn yr awyr agored pan allwn ni a pharhau i adael awyr iach i mewn. Mynd am brawf pan fydd angen hynny. Mynd am frechiad pan gawn gynnig un. Os bydd pob un ohonom yn chwarae ei ran, byddwn yn dod yn nes at ddyfodol sydd yn fwy cyfarwydd unwaith eto.